**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2011 RHIF 26**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN GWYRO PRIFFYRDD (LÔN TWTHILL, GER GWESTY'R CELT, STRYD BANGOR, CAERNARFON, GWYNEDD) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Ebrill 2011* |
| *Yn dod i rym* | *21 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990") a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" *("the Council")* yw Cyngor Gwynedd;

ystyr "y datblygwr" *("the developer")* yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi iddo;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Gwyro Priffyrdd (Lôn Twthill, ger Gwesty'r Celt, Stryd Bangor, Caernarfon, Gwynedd) 2011" ac sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

**2.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru, a hwythau wedi eu bodloni bod angen y gwyriad i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud fel a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 3 Ebrill 2008 o dan y rhif cyfeirnod C07A/0810/14/LL, yn awdurdodi gwyro'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ag ymyl du ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd yn cael ei chreu, er boddhad rhesymol y Cyngor, a bydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(3)**, i'w chynnal a'i chadw ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drosti.

**4.** Ni chaniateir gwyro’r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) hyd oni fydd y datblygwr wedi darparu'r briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(b) hyd oni fydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau’n dangos ym mha fodd y bwriedir gwyro'r briffordd;

(c) hyd oni fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau ac y bydd y datblygwr wedi ysgrifennu at y Cyngor i’w hysbysu o'r rheidrwydd i wyro’r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(ch) hyd oni fydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

**5.** Os bydd, yn union cyn gwyro'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn y gwyriad.

**6.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn dod yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a’i enw fydd Gorchymyn Gwyro Priffyrdd (Lôn Twthill, ger Gwesty’r Celt, Stryd Bangor, Caernarfon, Gwynedd) 2011.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Ebrill 2011

**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1990 p.8.
**(2)** Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1 iddi, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** 1980 p.66

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

## ATODLEN 1

### Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwyro o dan y Gorchymyn hwn

Darn o'r briffordd a elwir Lôn Twthill, Caernarfon, sy'n 67 o fetrau o hyd yn ei fan hiraf ac yn 4 metr o led yn ei fan lletaf, ac sy'n ymestyn o gornel de-ddwyreiniol Gwesty'r Celt i'r gyffordd â'r B4419 Stryd Bangor, Caernarfon.

## ATODLEN 2

### Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu

Llwybr cyswllt diddosbarth sydd o leiaf yn 2 fetr o led ac yn 90 o fetrau o hyd, ac sy'n ymestyn tua'r dwyrain o bwynt yn uniongyrchol i'r gogledd o Gapel Pen-dref i gornel de-ddwyreiniol Gwesty'r Celt lle y bydd yn ymuno â'r rhan sydd ar ôl heb ei gwyro o Lôn Twthill.

## ATODLEN 3

### Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

Estyniad i Westy'r Celt, Caernarfon i ddarparu storfa newydd ac ardal wasanaethu ac i gadw'r lle parcio cerbydau.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN GWYRO PRIFFYRDD (LÔN TWTHILL, GER GWESTY'R CELT, STRYD BANGOR, CAERNARFON, GWYNEDD) 2011**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi gwyro'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn a darparu'r rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir gwyro'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Gwynedd ar 3 Ebrill 2008 o dan rif cyfeirnod C07A/0810/14/LL. Bydd y Gorchymyn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben neu os y'i dirymir.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn ystod oriau swyddfa arferol yn adran Gwasanaethau Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod o ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cynulliad Cymru CZ510-5-44-qA748078/1.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaethau sydd ynddo, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. bod ei fuddiannau wedi eu rhagfarnu'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

gall y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 21 Ebrill 2011, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth, Cymru/ Gorchmynion Cau Priffyrdd: Deddf Cynllunio Gwlad a Thref/ 2011).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ**.

**M D BURNELL**
Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### ATODLEN 1

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwyro**

Darn o'r briffordd a elwir Lôn Twthill, Caernarfon, sy'n 67 o fetrau o hyd yn ei fan hiraf ac yn 4 metr o led yn ei fan lletaf, ac sy'n ymestyn o gornel de-ddwyreiniol Gwesty'r Celt i'r gyffordd â'r B4419 Stryd Bangor, Caernarfon.

### ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r briffordd newydd sydd i'w darparu**

Llwybr cyswllt diddosbarth sydd o leiaf yn 2 fetr o led ac yn 90 o fetrau o hyd, ac sy'n ymestyn tua'r dwyrain o bwynt yn uniongyrchol i'r gogledd o Gapel Pen-dref i gornel de-ddwyreiniol Gwesty'r Celt lle y bydd yn ymuno â'r rhan sydd ar ôl heb ei gwyro o Lôn Twthill.

### ATODLEN 3

**Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig**

Estyniad i Westy'r Celt, Caernarfon i ddarparu storfa newydd ac ardal wasanaethu ac i gadw'r maes parcio cerbydau.